

CANLLAW CHUCK-A-PUCK CROESO CAERDYDD I...

HER CYMRU - YN CYNNIG MORDEITHIAU I WEDDNEWID BYWYD AR LONG FAWR CYMRU



Ystod o anturiaethau ar Long Fawr Cymru - Her Cymru; i unigolion, teuluoedd, ffrindiau, grwpiau, ysgolion a digwyddiadau meithrin tîm.

Dim ond 10 munud o Gaerdydd ym Marina Penarth, mae Her Cymru yn cynnig cyfleoedd hwylio i bobl 12-75 oed ac mae'n ffordd wych o gael hwyl ar y dŵr. Fel y llong hwylio fwyaf yng Nghymru, gallwch gydio yn y llyw, codi'r hwyliau a chymryd rhan ym mhob agwedd ar hwylio. Ymunwch â Her Cymru ar ddiwrnod hwylio cwch mawr, trefnwch fordaith gyda'r hwyr i ffrindiau, teulu neu gydweithwyr, cymerwch ran mewn gweithgareddau meithrin tîm gyda chydweithwyr neu glentiaid neu ewch ar fordeithiau pellach o, ac i.

Gaerdydd, gan ymweld â phorthladdoedd gwahanol gan gynnwys Penfro, Pwllheli, Ynys Wair, Cowes, De Iwerddon, Belfast, Caerdybi, Aberdaugleddau a gwyllo dolffiniaid ar eich taith.

Darperir yr holl offer ar ein mordeithiau ynghyd â throwsus a siacedi gwrth-ddŵr a does dim angen profiad o hwylio i gymryd rhan.

Mae Her Cymru yn un o Ganolfannau Hyfforddi'r Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (RYA) ac yn Ddarparwr Gweithgareddau Cymeradwy ar gyfer Gwobr Dug

Caeredin gan gynnig cyfleoedd Preswyl Aur y Wobr. Mae Her Cymru yn elusen hwylio gofrestredig sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr ac mae'n gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd a hunanhyder drwy hwylio. Holwch am ein gweithgareddau i bobl ifanc 12-25 oed. Mae pob preswlydd y DU sydd dan 26 oed yn gymwys i gael cyllid bwrsari trwy Gronfa Bwrsari Her Cymru i'w gwneud yn haws ymuno â mordaith. Hwylodd Her Cymru rownd y byd, ddwywaith, yn ras gychod anodda'r byd; The Global Challenge, cyn troi'n llong hyfforddi ac ymgartrefu ym Mae Caerdydd.

Mae talebau rhodd ar gael y gellir eu defnyddio gydag unrhyw un o'n mordeithiau.

COFIWCH BRYNU EICH PYC I GYMRYD RHAN YN Y GYSTADLEUAETH HWYL AR NOSON Y GÊM!



Dysgwch fwy yn croesoCaerdydd.com

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol!
#CroesoCaerdydd

